# Chwistrellau plasma sy'n llawn platennau ar gyfer osteoarthritis yn y ben-glin

23 Ionawr 2019

Gellir defnyddio'r driniaeth hon ar gyfer osteoarthritis yn y ben-glin, ond dim ond pan fydd cleifion yn cael archwiliadau rheolaidd i weld pa mor dda mae'n gweithio neu a yw wedi achosi problemau, a hynny am nad oes digon o dystiolaeth ynglŷn â pha mor dda y mae'r driniaeth hon yn gweithio.

Gall osteoarthritis ddatblygu yn y ben-glin pan fydd cartilag sy'n gorchuddio pennau'r esgyrn wedi'i dreulio. Gall hyn achosi poen, anystwythder, chwydd a thrafferth cerdded. Yn ystod y driniaeth hon, caiff rhywfaint o gelloedd coch y gwaed eu tynnu o waed yr unigolyn ei hun, gan adael hylif a elwir yn blasma. Mae'r hylif hwn yn cynnwys celloedd bach a elwir yn blatennau, a all ysgogi'r broses wella naturiol. Caiff y plasma ei chwistrellu i'r pen-glin. Y nod yw lleddfu symptomau'r claf.

Gall gwefan y GIG fod yn lle da i gael gwybod mwy. Mae gan ganllawiau triniaethau ymyriadol NICE fwy o wybodaeth am driniaethau a sut rydym yn eu hasesu.

**A yw'r driniaeth hon yn addas i mi?**

Os cawsoch gynnig y driniaeth hon, dylai eich gweithwyr gofal iechyd proffesiynol drafod yr hyn y mae'n ei olygu, a dweud wrthych am y risgiau a'r manteision. Dylent drafod eich opsiynau gyda chi, a gwrando'n ofalus ar eich barn a'ch pryderon. Gall eich teulu fod yn rhan o'r broses hefyd, os ydych yn dymuno. Dylai hyn oll ddigwydd cyn y byddwch yn cytuno (rhoi cydsyniad) i gael y driniaeth. Dylech hefyd gael gwybod sut i gael rhagor o wybodaeth am y driniaeth. Darllenwch ragor am wneud penderfyniadau am eich gofal.

**Rhai cwestiynau i feddwl amdanynt**

- Beth yn union yw'r driniaeth hon?
- Beth yw'r manteision posibl? Pa mor debygol ydw i o'u cael?
- Beth yw'r risgiau neu'r sgîl-effeithiau? Pa mor debygol ydynt?



© NICE 2019. All rights reserved. Subject to Notice of rights.

- Beth fydd yn digwydd os na fydd y driniaeth yn gweithio neu os aiff rhywbeth o'i le?
- Beth fydd yn digwydd os nad wyf eisiau'r driniaeth? A oes triniaethau eraill ar gael?

ISBN: 978-1-4731-3201-6



© NICE 2019. All rights reserved. Subject to Notice of rights.